# Cartrefi Gofal ac Offer

## *Egwyddorion arweiniol ar gyfer asesiad a darpariaeth*

**Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol**



Coleg Brenhinol y
Therapyddion
Galwedigaethol

## Am y cyhoeddwr

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT) yn is-gwmni sydd yn eiddo llwyr i Gymdeithas Brydeinig y Therapyddion Galwedigaethol (BAOT) ac mae'n gweithredu fel elusen gofrestredig. Mae'n cynrychioli'r proffesiwn yn genedlaethol a rhyngwladol, ac yn cyfrannu'n eang at ymgynghoriadau polisi trwy'r Deyrnas Unedig i gyd. Y RCOT sy'n gosod y safonau proffesiynol ac addysgiadol ar gyfer therapi galwedigaethol, gan roi arweiniad, cyfarwyddyd a gwybodaeth yn ymwneud ag ymchwil a datblygu, addysgu, ymarfer a dysgu gydol oes. Yn ychwanegol, mae 10 adran arbenigol wedi eu hachredu yn cefnogi ymarfer clinigol arbenigol.

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

**rcot.co.uk**

# Cartrefi Gofal ac Offer

## *Egwyddorion arweiniol ar gyfer asesiad a darpariaeth*

**Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol**

Coleg Brenhinol y
Therapyddion
Galwedigaethol

**Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2019**
gan Goleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol Cyf,
106–114 Borough High Street,
Llundain/London SE1 1LB
**www.rcot.co.uk**

Hawlfraint © Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol 2019

**Awdur:** Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol
**Cyfieithydd:** Gwerfyl Jones
**Ysgrifennwr:** Henny Pearman
**Cyhoeddwr:** Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

Cedwir pob hawl, yn cynnwys cyfieithiad. Ni chaniateir atgynhyrchu, cadw mewn system adalw na thrawsyrru unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn drwy unrhyw fath neu unrhyw fodd, electronig, mecanyddol, llungopio, recordiad, sganio neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol, os na chytunwyd neu y nodwyd fel arall. Ni chaniateir copïo heblaw ar gyfer defnydd personol a mewnol, i'r graddau a ganiateir gan gyfraith hawlfraint genedlaethol, neu dan delerau trwydded a gyhoeddwyd gan y sefydliad hawliau atgynhyrchu cenedlaethol perthnasol (megis yr Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint yn y Deyrnas Unedig). Mae'n rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd ar gyfer mathau eraill o gopïo, megis copïo ar gyfer dosbarthiad cyffredinol, ar gyfer hysbysebu neu ddibenion hyrwyddo, am greu gweithiau torfol newydd, neu ar gyfer ailwerthu, at y Rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad uchod.

Dylid cyfeirio ymholiadau eraill am y ddogfen hon at y tîm Ymarfer Proffesiynol yn y cyfeiriad uchod.

***Data catalogio wrth gyhoeddi'r Llyfrgell Brydeinig***
Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig

Er i ni wneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb, ni fydd Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ddefnyddio'r cyhoeddiad hwn.

**ISBN 978-1-905944-91-0**

Cysodwyd gan Servis Filmsetting Cyf
Argreffir yn ddigidol yn ôl y gofyn ym Mhrydain gan y Lavenham Press, Suffolk

MIX
Paper from responsible sources
FSC® C010693
FSC www.fsc.org

# Cynnwys

**Cyflwyniad** iv

**Egwyddorion cyffredinol** 1

**Diben a gwerth offer** 2

**Asesu ar gyfer offer** 4

**Darpariaeth offer** 7

**Cynnal a chadw offer** 12

***Adnoddau*** 17

***Cyfeiriadau*** 22

***Llyfryddiaeth*** 25

# Cyflwyniad

Diben y canllawiau hyn yw dynodi nifer o egwyddorion sydd angen iddynt fod yn sail i wneud penderfyniadau lleol wrth gynllunio darpariaeth, neu ddarparu, offer ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal. Yn gyntaf oll, mae'r egwyddorion hyn yn rhoi'r person wrth ganol cynllunio, gwneud penderfyniadau a darparu offer.

Nid yw deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol bob amser yn rhoi atebion clir i rai cwestiynau'n ymwneud â darparu offer mewn cartrefi gofal. Gan ddefnyddio sefyllfaoedd achos, bydd y ddogfen hon yn rhoi sylw i nifer o gyfrifoldebau a safonau ymarfer i helpu rhoi blaenoriaeth i bwysigrwydd llesiant y person yn y broses benderfynu ar gyfer darparu offer.

Drwy'r ddogfen hon caiff y person/pobl y darperir yr offer ar eu cyfer eu galw yn breswylydd neu breswylwyr, sy'n cynnwys y rhai a gaiff eu hasesu cyn eu derbyn i'r cartref gofal.

# Egwyddorion cyffredinol

Byddai'r Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol yn annog pob partner i gadw at yr egwyddorion a'r safonau dilynol wrth gynllunio a darparu offer i breswylwyr cartrefi gofal:

1 Mae gan breswylwyr cartrefi gofal yr un mynediad i asesiad anghenion, gyda darpariaeth offer a gwasanaethau eraill, ag unrhyw breswylydd arall yn eu hardal leol (DHSC 2018, adran 6.13; DH 2013, adran 47b a chanllawiau cyfatebol yng ngwledydd y Deyrnas Unedig).

2 Mae ffocws cynllunio a darparu offer i gartrefi gofal yn cychwyn gyda'r preswylwyr a'u hanghenion, gyda'r nodau neu ganlyniadau a ddewiswyd (DHSC 2018, adran 1.1). Mae offer yn ddull o gynyddu llesiant, gan alluogi person i gymryd rhan weithredol a diogel mewn galwedigaethau (gweithgareddau bob dydd).

3 Ni all unrhyw sefydliad unigol gamu nôl o'u cyfrifoldeb i fod yn rhan o wasanaeth cynhwysfawr i breswylwyr cartref gofal.

4 Mae cyfanswm gwasanaethau darparu offer yn faes a gaiff ei lunio'n bennaf gan anghenion preswylwyr, nid gan strwythurau cyllido. Mae partneriaid darparu yn cynllunio a gweithio gyda'i gilydd i atal oedi wrth ddarparu offer.

# Diben a gwerth offer

Mae gan breswylwyr yr hawl i ddiogelwch a sicrwydd; parch, preifatrwydd ac urddas, rhyddid meddwl, ffydd a hunan-fynegiant, annibyniaeth a dewis; cyfranogiad, cynhwysiant a chymdeithas. Gall offer gynorthwyo wrth gyflawni a chynnal yr hawliau hyn a chefnogi iechyd a llesiant pobl yn y ffyrdd dilynol:

- Mae offer yn galluogi ymgysylltu galwedigaethol (Daley et al 2016). Mae'n cynyddu annibyniaeth, dewis a chyfranogiad i'r eithaf. Mae ymgysylltu galwedigaethol yn cwmpasu cyflawni a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ystyrlon i'r unigolyn, megis hunan-ofal a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Pan gaiff anghenion preswylydd eu hasesu, mae hyn yn cynnwys yr angen am offer i alluogi ymgysylltu galwedigaethol.
- Mae galwedigaethau yn sylfaenol i iechyd a llesiant dynol oherwydd eu bod yn rhoi ystyr, hunaniaeth a strwythur i fywydau pobl ac yn adlewyrchu gwerthoedd a diwylliant cymdeithas (Whiteford 2004). Gallai gwrthod offer addas i gyflawni hyn o bosibl gyfyngu annibyniaeth person a'u mynediad i'w dewis o ffordd o fyw.
- Gall darpariaeth a defnyddio offer yn briodol gynnal a chynyddu iechyd corfforol. Drwy hwyluso ystum a symudiad da, gall offer optimeiddio defnydd arferol llawer o systemau corff sy'n cefnogi iechyd a llesiant, er enghraifft y systemau cyhyrosgerbydol, anadlol, cylchredol a thraul.

- Mae offer yn cyfrannu at ddiogelwch, annibyniaeth, ansawdd bywyd ac urddas personol (Sainty et al 2009). Gall darparu offer addas yn amserol helpu i atal gwaethygiad mewn iechyd, croen, integriti, llesiant ac annibyniaeth, gan arwain at arbediad cost hirdymor ar gyfer darparwyr gofal (Daley et al 2016).

# Asesu ar gyfer offer

## Enghraifft o ymarfer

Mae dementia ar Mrs M, ac roedd yn defnyddio ffon i fynd o amgylch y cartref gofal. Daeth yn wael gyda firws a bu'n rhaid iddi aros yn y gwely am wythnos. Pan allai eistedd yn ei chadair, roedd y staff yn ei chael yn anodd ei symud gan ei bod wedi mynd yn wan iawn. Roedd Mrs M yn amharod i gael ei chodi mewn hoist. Dan *Ddeddf Gofal 2014* gofynnodd staff am asesiad anghenion i weld os byddai Mrs M yn manteisio o adsefydlu i atal gwaethygu, neu offer ychwanegol i gynorthwyo ei throsglwyddo ac iddi adennill ei hannibyniaeth. Gwrthododd yr awdurdod lleol asesu Mrs M oherwydd ei bod mewn cartref gofal, gyda diagnosis o dementia ac nad oedd yn cyflawni eu meini prawf ar gyfer gwasanaethau adsefydlu.

*Canlyniad a ddymunir:* Caiff Mrs M asesiad gan y tîm adsefydlu. Mae Mrs M eisiau medru cerdded eto. Cytunir ar y nod yma a darperir offer a hyfforddiant i Mrs M a staff gofal i gefnogi ei chodi a'i gallu i symud. Ar ôl 5 wythnos gall Mrs M eistedd a chodi yn annibynnol ar gadair a cherdded gyda rholiadur.

*Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad ar gyfer unrhyw oedolyn sy'n ymddangos eu bod angen gofal a chymorth ... Lle bynnag mae unigolyn*

*yn mynegi angen, neu unrhyw heriau ac anawsterau y maent yn eu hwynebu oherwydd eu cyflwr/cyflyrau, dylai'r awdurdod lleol sicrhau ei fod wedi sefydlu effaith hynny ar fywyd beunyddiol yr unigolyn ... Er enghraifft lle mae oedolyn yn mynegi angen parthed eu cyflwr a symudedd corfforol, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sefydlu effaith hyn ar y canlyniadau a ddymunir ar gyfer yr oedolyn ... Yn ystod yr asesiad, mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried holl anghenion gofal a chymorth yr oedolyn, pa bynnag gymorth a roddir gan ofalwr.*

(Addaswyd o DHSC 2018, adran 6, 13-6.15)

## Mae'r egwyddorion dilynol yn berthnasol ar gyfer asesu offer a dylent lywio ymarfer:

- Gan ddefnyddio'r un meini prawf â phobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, dylai preswylwyr a gaiff eu derbyn i ysbyty gael eu hystyried ar gyfer asesiad therapi galwedigaethol. Yn dilyn asesiad, dylid cynnig benthyg offer dros dro, yn unol â'r cytundebau lleol rhwng awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol, i alluogi rhyddhau o ysbyty ac atal problemau iechyd rhag gwaethygu.
- Dylai darpariaeth offer gael ei seilio ar asesiad anghenion y preswylydd/preswylwyr. Caiff y rhain eu diwallu gyda'r offer mwyaf addas. Nid oes unrhyw breswylydd 'safonol' neu ymateb 'un maint yn ffitio pawb'.
- Dylai anghenion neilltuol neu arbenigol iawn, y tu allan i ddiben penodol y cartref gofal, gael eu

hasesu a'u cyflawni gydag offer priodol penodol gan y darparydd mwyaf priodol. Dim ond gyda'r preswylydd hynny y dylid defnyddio offer a ddarparwyd i ddiwallu anghenion preswylydd neilltuol.

- Dylai'r unigolyn sy'n asesu'r angen ar gyfer, argymell, darparu neu'n defnyddio'r offer fod yn amlwg wedi eu hyfforddi ac yn brofiadol i wneud hynny. Dylai cyngor a chymorth arbenigol gael eu rhannu ar draws partneriaid darparydd lle bo angen.
- Dylai aseswyr a darparwyr ystyried y ffordd fwyaf effeithlon o ran cost o ddiwallu anghenion yr unigolyn, yn ogystal ag iechyd, diogelwch a llesiant y preswylydd a hefyd unrhyw ofalwyr ffafriol neu anffurfiol.
- Ynghyd ag asesiad o angen, dylid cynnal asesiad llawn o risg. Mae hyn yn diffinio sut y caiff yr offer cywir eu defnyddio'n briodol i alluogi symud a gofal diogel ar gyfer preswylydd, tra'n gwarchod y preswylydd a hefyd y staff gofal rhag anaf. Dylai'r asesiad ystyried unrhyw anghenion neu amgylchiadau neilltuol sydd gan y preswylydd, unrhyw amgylchiadau amgylcheddol o fewn y cartref, cyfarwyddiadau gan y gwneuthurydd/cyflenwr a deddfwriaeth bresennol. Dylid hefyd roi ystyriaeth i wybodaeth a phrofiad staff y cartref gofal, gan ddynodi unrhyw ofynion am sgiliau a hyfforddiant neilltuol ar gyfer offer penodol.

# Darpariaeth offer

*Dylai offer ... gael ei ddarparu gan y cartref gofal os yw'r math o offer sy'n aml ei angen gan ei ddefnyddwyr fel rhan o'i ddatganiad diben.*
(Adran Iechyd Integreiddio Gwasanaethau Offer Cymunedol 2004, t.iv)

## Enghraifft o ymarfer

Cafodd Mr A strôc bum mlynedd yn ôl, gan arwain at wendid gweddilliol ar ei ochr dde. Er nad yw'n gallu symud, cafodd ei godi ar hoist a chadair olwyn i gadair cefn uchel yn y rhannau cymunol, lle cymerodd ran yn holl weithgareddau cymdeithasol y cartref. Yn dilyn gwaethygiad cyffredinol yn ei iechyd, dechreuodd wyro'n drwm i'r dde a syrthiodd o'r gadair nifer o weithiau. Cwblhaodd therapydd galwedigaethol asesiad ac argymell sedd arbenigol gyda swyddogaeth gwyro-mewn-gofod a chymhorthion ochr ychwanegol. Dywedodd yr awdurdod lleol na fyddai'n cyllido'r sedd arbenigol gan mai mater i'r cartref preswyl yw darparu cadair i ddiwallu ei anghenion, er eu bod yn cydnabod y byddai Mr A wedi bod yn gymwys am gyllid pe byddai wedi bod yn ei gartref ei hun. Gan fod hyn yn offer arbenigol, teimlai'r cartref na fedrid ei weld fel rhan o'r offer safonol a ddarperir gan y cartref gofal. Yn ystod yr oedi wrth wneud penderfyniad gwaethygodd Mr A a daeth yn gaeth i'w wely a chafodd ei symud i ofal nyrsio

gan fod ei anghenion bellach yn ormod ar gyfer gosodiad preswyl.

*Canlyniad a ddymunir:* Caiff atal gwaethygu pellach mewn iechyd ei gydnabod fel blaenoriaeth. Bydd gan Mr A yr un hawliau ac ystyriaethau â pherson yn byw yn ei gartref ei hun. Mae prosesau penderfynu a gytunwyd yn lleol ar gyfer offer pwrpasol neu allan o'r cyffredin

Byddai disgwyl i'r offer safonol sydd gan gartref gofal gyfateb i'r hyn sydd ar gael yn eang i ddefnyddwyr yn eu cartrefi eu hunain. Gall offer safonol fod o fath sydd:

- yn cael ei ddefnyddio gan fwy nag un person;
- yn cael ei ddefnyddio'n aml/gyson gan y defnyddiwr;
- yn ofal cymorth a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ofalwyr ar dâl;
- yn cefnogi gofal personol neu nyrsio cyffredinol;
- yn cynorthwyo gweithgareddau byw bob dydd a galluogi annibyniaeth;
- yn cael ei ddarparu heb ofyniad am asesiad ymlaen llaw;
- ar gyfer angen tymor byr neu hirdymor; ac
- yn cefnogi amgylchedd diogel i ddefnyddwyr.

Er y disgwylir i gartrefi gofal gael amrywiaeth o offer i ddiwallu amrywiadau mewn taldra, pwysau, maint ac anghenion cymorth, byddai'r rhestr yma'n awgrymu fod eitemau offer a deilwriwyd yn benodol i ateb anghenion un preswylydd nad yw'n addas ar gyfer ei

ddefnyddio gan breswylwyr cartref gofal arall yn cael ei gyflenwi gan y gwasanaeth offer cymunedol ac nid y cartref gofal.

Gall y gwasanaeth offer cymunedol ddarparu offer os oes gan berson angen offer pwrpasol neu 'allan o'r cyffredin'. Mae 'allan o'r cyffredin' yn disgrifio offer na fyddai fel arfer ei angen gan bobl yn y cartref gofal. Er enghraifft, gall person fod angen cadair cawod pediatrig. Er bod cadair cawod yn eitem safonol a heb fod yn bwrpasol ar gyfer yr unigolyn mae'n ddarpariaeth 'allan o'r cyffredin' ar gyfer cartref gofal sydd wedi cofrestru ar gyfer oedolion, a gall gael ei ddarparu.

Dylai'r contract ar gyfer lleoliadau a gyllidir gan awdurdod lleol ddynodi a chynnwys unrhyw ofynion unigol y preswylydd. Lle mae anghenion preswylydd yn newid a bod offer nad yw'n ddarpariaeth safonol, yna dylid cyfeirio at y contract wrth gytuno ar gyfer cyllid ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Ar gyfer preswylwyr sy'n cyllido eu hunain, dylid cyfeirio at eu contract gwreiddiol.

## Mae'r egwyddorion dilynol yn weithredol ar gyfer darparu offer a dylai lywio ymarfer:

- Mae cytundebau lleol clir a chynhwysfawr, yn ystyried pob sefyllfa bosibl, yn hanfodol i sicrhau y caiff holl anghenion defnyddwyr eu diwallu mor llyfn ac mor ddiymdrech ag sydd modd (Donelly B 2015, pwynt 2.4). Y cytundeb lleol ddylai ddiffinio ar gyfer pob partner pwy sy'n gyfrifol am ba elfen o ddarpariaeth gwasanaeth. Gall y ddeddfwriaeth,

ffrydiau cyllido a phrosesau amrywio ar draws y Deyrnas Unedig, ond ni fydd llesiant a hawliau'r preswylwyr dan sylw yn newid.

- Dylai cartref gofal ddarparu amrywiaeth o offer safonol i ddiwallu anghenion ei breswylwyr a'i nodau, fel a ddiffinnir gan ei ddatganiad diben, ac i gyflawni ei ymrwymiadau iechyd a diogelwch i'w staff ei hun. Mae hyn yn cynnwys offer i ddarparu ar gyfer preswylwyr yn amrywio mewn taldra, pwysau, maint ac anghenion cymorth a, lle'n bosibl, ddewisiadau'r preswylydd (Comisiwn Ansawdd Gofal 2015, t28). Y cartref gofal sy'n cyllido'r offer hwn. Byddai cartref nyrsio hefyd yn darparu a chyllido offer nyrsio safonol.
- I fod yn 'addas i'r diben' dylai'r cartref ddangos ei fod yn llwyddiannus wrth ddiwallu ei nodau a ddatganwyd (Prydain Fawr, Y Senedd 2000, Adran 23(1)). Dylai unrhyw gartref gofal fod â chyflenwad digonol o offer i ddiwallu anghenion eu preswylwyr. Mae angen iddynt roi gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth digonol i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr cyflogedig a'r preswylwyr (HSE 2014).
- Mae *Deddf Gofal 2014* (Prydain Fawr, Y Senedd 2015), neu ddeddfwriaeth gyfatebol yn y Deyrnas Unedig, yn gosod dyletswydd gyffredinol ar yr awdurdod lleol i ddarparu, trefnu neu fel arall ddynodi gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau i atal, oedi neu ostwng anghenion oedolion ar gyfer gofal a chymorth yn yr ardal leol. Yn Lloegr, gall offer ddod o fewn hyn. Lle darperir offer fel rhan o wasanaethau ataliol dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r holl offer fod yn rhad ac am ddim i'r defnyddiwr/preswylydd (COT 2016).

- *Gall* yr awdurdod lleol gynnig cyllideb bersonol/ taliad uniongyrchol i breswylwyr ar gyfer offer i ddiwallu angen a aseswyd yn glinigol fel rhan o asesiad gofal cymunedol. Gellir defnyddio hyn i brynu offer tebyg i'r hyn a ddarperir gan y gwasanaeth offer cymunedol. Mae gan y preswylydd yr opsiwn i gyfrannu at y cyllid i brynu offer o'u dewis cyhyd ag y dangosir ei bod yn diwallu'r anghenion a aseswyd fel y'u dynodwyd gan yr awdurdod lleol. Dylai'r cyfrifoldeb parhaus am ofal a chynnal a chadw yr offer hwn fod yr un fath ag ar gyfer unrhyw berson sy'n byw mewn cartref yn defnyddio taliad uniongyrchol.
- Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, os yw'r person yn derbyn Gofal Iechyd Parhaus gan y GIG, yna dylai cyllid ar gyfer offer pwrpasol neu offer arall sydd ei angen i ddiwallu anghenion penodol fel y'u dynodwyd yn y Cynllun Gofal Iechyd Parhaus gael eu diwallu gan y grŵp comisiynu clinigol neu drefniadau comisiynu cyfatebol (DH 2012, rhan 1, adran 172).
- Yn yr Alban, mae *Deddf Gofal Cymunedol ac Iechyd (Yr Alban)* (Yr Alban, Llywodraeth yr Alban 2002) yn rhoi hawl i bobl hŷn gael gofal personol am ddim, beth bynnag eu hincwm neu p'un ai ydynt yn byw adref neu mewn gofal preswyl. Cafodd Gofal Iechyd Parhaus y GIG ei ddisodli gan Ofal Clinigol Cymhleth Seiliedig mewn Ysbyty a dim ond o fewn cartrefi gofal a gomisiynwyd yn arbennig y caiff ei gynnig. Dylid darparu offer arbenigol yn dilyn asesiad angen yng nghyswllt gofal personol a nyrsio.

# Cynnal a chadw offer

Dan *Reoliadau Darpariaeth a Defnydd Offer Gwaith 1998* (Prydain Fawr, Y Senedd 1998a) a *Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998* (LOLER) (Prydain Fawr, y Senedd 1998b) mae'n rhaid i unrhyw offer a ddefnyddir gan weithiwr cyflogedig yn y gwaith fod yn iawn i'r swydd, cael ei ddefnyddio'n ddiogel gan bobl wedi eu hyfforddi a'i gynnal a chadw fel ei bod yn ddiogel.

Mae'r rheoliadau dilynol yn weithredol i gynnal a chadw offer a dylai lywio ymarfer:

- Dylai staff cartref gofal sicrhau fod darn o offer yn ddiogel, glân, cysurus ac addas i breswylwyr ei ddefnyddio. Dylent fedru adnabod lle mae lefel iechyd, llesiant, symudedd neu allu gweithredol preswylydd yn gostwng, gan ddangos eu bod angen adolygiad o'u hanghenion offer. Mae'n rhaid i'r adolygiad hwn wedyn cael ei weithredu.
- Cydnabyddir y gellir gweld defnydd offer amhriodol neu annigonol, neu ddiffyg darpariaeth, fel mater o gonsyrn am ddiogelu, lle mae'n ddiraddiol i'r preswylydd, yn anwybyddu eu hanghenion yn sylweddol, neu'n achosi ataliaeth corfforol amhriodol (Comisiwn Ansawdd Gofal 2018).

## Offer codi a slingiau

### Esiampl o ymarfer

Daeth preswylydd newydd â'i sling ei hun gyda hi i gartref gofal. Ni chafodd hyn ei archwilio pan gafodd ei derbyn. Roedd dyn oedd yn byw yn yr ystafell agosaf yn cael ei godi'n rheolaidd yn defnyddio hoist. Pan aethpwyd â'i sling i'w golchi, benthycodd aelod o staff sling y preswylydd newydd, heb sylweddoli ei bod o'r maint anghywir ac heb feddwl gwirio ei bod yn ddiogel, gan greu risg posibl sylweddol o niwed.

*Canlyniad a ddymunir:* Mae gan y cartref gofal amrywiaeth o slingiau; caiff staff gofal eu hyfforddi ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y caiff y sling mwyaf addas ei ddewis i ddiwallu anghenion y preswylydd.

Lle caiff pobl eu codi yn defnyddio offer codi symudol neu sefydlog, mae'n rhaid i'r slingiau a ddefnyddir fod o gynllun addas i weithio gyda'r math o hoist sydd ar gael. Mae'n rhaid i'r sling hefyd fod o'r maint a math cywir ar gyfer y person a'r gweithgaredd a wneir. Dylai staff cartref gofal gael eu hyfforddi sut i ddefnyddio offer codi yn ddiogel ac mewn modd priodol a gwybod am eu cyfrifoldeb yn nhermau cynnal a chadw, diogelwch a glanweithdra/rheoli heintiad.

Yn ogystal â chynnal a chadw a gwasanaethu arferol, mae *Rheoliadau Gweithrediadau Codi ac Offer Codi 1998* (Prydain Fawr, y Senedd 1998b) yn ei gwneud yn ofynnol i offer codi gael ei arolygu a'i archwilio'n drwyadl gan 'berson cymwys' bob chwe mis, neu'n unol â chynllun archwiliad ysgrifenedig. Person cymwys yw rhywun gyda'r wybodaeth dechnegol

berthnasol a phrofiad ymarferol o offer codi i'w alluogi i ganfod diffygion neu wendidau ac i asesu eu pwysigrwydd yng nghyswllt diogelwch a defnydd parhaus o'r offer penodol sy'n cael ei archwilio (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2011, t3).

## Cadeiriau Olwyn

### Enghreifftiau o ymarfer

Roedd preswylydd yn methu cerdded o'i hystafell i'r ystafell eistedd gymunol. Cafodd ei rhoi mewn cadair olwyn fawr iawn yn cael ei rheoli gan weinydd. Nid oedd y gadair olwyn yn rhoi fawr o gefnogaeth i drwnc y preswylydd a dim ond un plât troed oedd gan y gadair olwyn a dim clustog.

*Canlyniad a ddymunir:* Caiff y preswylydd ei rhoi'n ddiogel a chysurus mewn cadair olwyn, gan eistedd yn y safle gorau.

Yn y sefyllfa uchod, cafodd iechyd a diogelwch y preswylydd ei roi mewn risg oherwydd defnyddio cadair olwyn anaddas ac mewn cyflwr gwael. Dylai cartrefi fod ag amrywiaeth o gadeiriau olwyn safonol a weithredir gan weinydd, yn cynnwys digon i ddarparu ar gyfer unrhyw eithafion maint a phwysau. Dylai'r cadeiriau olwyn gael clustogau sedd, man gorffwys coesau, platiau troed a breciau gweithio safonol. Ni ddylai unrhyw breswylydd fod mewn risg oherwydd defnydd offer anniogel, anghyflawn neu anaddas.

Caiff cadeiriau olwyn eu hystyried fel dyfeisiau meddygol. Dylai cartrefi gofal sicrhau fod pob preswylydd sy'n defnyddio cadair olwyn yn cael

cyfarpar sy’n addas i’r diben ac a gaiff eu defnyddio’n gywir. Mae hyn yn golygu dilyn cyfarwyddiadau’r gwneuthurydd am ddefnydd, cynnal a chadw a gwasanaethu, a chanllawiau cyfredol gan Asiantaeth Reoleiddiol Meddyginiaethau a Chynnyrch Gofal Iechyd.

## Seddi arbenigol

**Enghraifft o ymarfer**

Roedd preswylydd yn dymuno eistedd mewn cadair, yn hytrach nag aros yn y gwely. Nid oedd gan y cartref gofal gadair sefydlog i gefnogi’r preswylydd yn ddiogel mewn safle da. Roedd felly’n aros yn y gwely, gan gyfyngu yr hyn y gallai wneud.

*Canlyniad a ddymunir:* Mae darparu cadair arbenigol yn galluogi’r preswylydd i eistedd yn yr ardal gymunol, mwynhau cwmnïaeth, bod yn rhan o fywyd y cartref a bwydo ei hunan. Mae hyn o fudd i’w hwyliau, iechyd a llesiant; ei gallu i gyfathrebu a chymdeithasu; ac annibyniaeth cyffredinol.

Dylai amrywiaeth o seddi fod ar gael fel safonol, yn cynnwys cadeiriau y gellir addasu eu huchder a chadeiriau â’u cefnau’n gostwng a rhai’n addas ar gyfer preswylwyr neilltuol o fach neu drwm. Os yw’r anghenion yn arbenigol, dylai’r cartref gofal ofyn am asesiad o anghenion eistedd y preswylydd a chael cadair addas.

Mae gan y preswylydd, p’un ai ydynt yn talu am eu hunain ai peidio, hawl i asesiad. Gan fod anghenion y

preswylydd yn arbenigol ac y cyflenwir y gadair ar gyfer ei defnyddio gan y preswylydd neilltuol yn unig, ni fyddai hyn yn cael ei gyllido gan y cartref gofal. Rhaid rhoi ystyriaeth wrth negodi cyllid i effaith a'r risgiau posibl i'r preswylydd o aros yn y gwely.

# Adnoddau

## Ar draws y Deyrnas Unedig

### Cynllun Cod Ymarfer Offer Cymunedol (CECOPS)

Donnelly B (2015) *Code of Practice for disability equipment, wheelchair and seating services: a quality framework for procurement and provision of services.* Kibworth Beauchamp: Matador. Ar gael yn: *http://www.cecops.org.uk/code-of-practice-scheme/the-official-code-of-practice-book/*

Wedi'i gynhyrchu gan CECOPS, mae'r ddogfen yn gosod fframwaith i gynyddu effeithlonrwydd gwasanaethau, ar gyfer darparu gofal ansawdd da a diogel.

### Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011) *Your rights to equality from healthcare and social care services: guidance (*Deddf Cydraddoldeb 2010. Guidance for service users. Cyfrol 4 o 7). [a.1]: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Ar gael yn: *https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/your_rights_to_equality_from_healthcare_and_social_care_services.pdf*

Mae'r canllaw yn un o gyfres a ysgrifennwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i gefnogi

gweithredu *Deddf Cydraddoldeb 2010.* Mae'r canllawiau'n weithredol i Loegr, yr Alban a Chymru. Mae'n gydnaws gyda'r *Statutory Code of Practice on Services, Public Functions and Associations* (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2011).

### Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol

Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol (2018) *Embracing risk: enabling choice: guidance for occupational therapists.* Llundain: RCOT. Ar gael yn: *https://www.rcot.co.uk/practice-resources/rcot-publications/downloads/embracing-risk*

Mae'r canllawiau hyn yn fan cyfeirio hanfodol sy'n rhoi dealltwriaeth o egwyddorion a phroses rheoli risg.

## Cymru

### Arolygiaeth Gofal Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn cofrestru, archwilio a gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau ar gyfer llesiant pobl Cymru. *https://arolygiaethgofal.cymru/*

### Gofal Cymdeithasol Cymru

Siop un stop ar gyfer ystod o adnoddau am ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol Cymru. *https://socialcare.wales/hub/about*

Gofal Cymdeithasol Cymru (2017) *Fframwaith sefydlu Cymru gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol: adnoddau, deddfwriaeth, dolenni polisi ac adolygiadau*

*perthnasol i faes pwnc.* [Caerdydd]: Gofal Cymdeithasol Cymru. Ar gael yn: *https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/Induction-framework-resources.docx*

# Lloegr

## Comisiwn Ansawdd Gofal/Care Quality Commission (CQC)

Y Care Quality Commission (CQC) yw rheoleiddiwr annibynnol iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. Mae'r CQC yn rhoi arweiniad i ddarparwyr ac yn cynnal fforwm drafod ar-lein ar gyfer darparwyr a gweithwyr proffesiynol.
*https://www.cqc.org.uk/*

## Yr Adran Iechyd/Department of Health

Department of Health (2004) *Community equipment and care homes.* Llundain: DH. Ar gael yn: *https://www.scie-socialcareonline.org.uk/community-equipment-and-care-homes/r/a11G00000017vWnIAI*

Cynlluniwyd y ddogfen hon i hyrwyddo dealltwriaeth rhwng rheolwyr cartrefi gofal, gwasanaethau offer cymunedol integredig a phartïon eraill sydd â diddordeb mewn darparu offer mewn cartrefi gofal. Gellir ei ddefnyddio fel man cychwyn i ddatblygu polisïau a chytundebau lleol. Mae o werth neilltuol i gomisiynwyr gwasanaethau sy'n gyfrifol am brynu a chontractio gyda chartrefi gofal. Mae gan staff gyda chyfrifoldebau rheoli gofal ran bwysig wrth ddynodi anghenion offer pan fo person yn cychwyn gyda chartref gofal a phan fydd eu hanghenion yn newid. Mae gan bobl mewn cartrefi gofal awdurdodau lleol a

chartrefi gofal preifat yr un hawliau i wasanaethau yn cynnwys darpariaeth offer, a’r rhai sy’n byw yn eu cartrefi eu hunain.

### Cyngor Cenedlaethol Gofal Lliniarol/ National Council for Palliative Care

National Council for Palliative Care (2006) *Introductory guide to end of life care in care homes.* Llundain: [s.n.]. Ar gael yn:
*http://www.ncpc.org.uk/sites/default/files/GuideToEoLC%20CareHomes.pdf*

## Gogledd Iwerddon

### Adran Iechyd/Department of Health

Department of Health [n.d], *Care standards.* Belfast: DH. Ar gael yn:
*https://www.health-ni.gov.uk/articles/care-standards*

### Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (Gogledd Iwerddon)/Regulation and Quality Improvement Authority (Northern Ireland)

Yr RQIA yw’r corff annibynnol sy’n gyfrifol am fonitro ac archwilio argaeledd ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.
*https://rqia.org.uk/*

# Yr Alban

## Gwybodaeth Gofal yr Alban/Care Information Scotland

Care Information Scotland [n.d.] *Legislation protecting people in care* [a.1.] Care Information Scotland. Ar gael yn:
*http://www.careinfoscotland.scot/topics/your-rights/legislation-protecting-people-in-care/*

Deddfwriaeth yn gwarchod pobl mewn gofal gyda chyfeiriad at yr Alban.

## Arolygiaeth Gofal (yr Alban)/Care Inspectorate (Scotland)

Mae'r Care Inspectorate (Scotland) yn gorff craffu sy'n edrych ar ansawdd gofal yn yr Alban ac yn cynnal adnoddau ar gyfer arfer da.
*http://www.careinspectorate.com/*

## Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban/Convention of Scottish Local Authorities (CosLA)

Convention of Scottish Local Authorities (2012) *Protocol for the provision of equipment to care homes.* Caeredin: CosLA. Ar gael yn:
*https://www.gov.scot/Topics/Health/Support-Social-Care/Independent-Living/Equipment-Adaptations/Carehomes-Protocol*

Mae'r Protocol Cenedlaethol yn rhoi eglurdeb ar swyddi a chyfrifoldebau ar gyfer cartrefi gofal a sefydliadau statudol, ac yn ffurfio rhan o Gontract Cenedlaethol Cartrefi Gofal.

# Cyfeiriadau

Adran Iechyd (2013) *NHS-funded nursing care: practice guide*. Llundain: DH. Ar gael yn: *https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/211256/NHS-funded_Nursing_Care_Best_Practice_Guidance.pdf*

Adran Iechyd (2012) *National framework for NHS continuing healthcare and NHS-funded nursing care.* Llundain: DH. Ar gael yn: *https://www.gov.uk/government/publications/national-framework-for-nhs-continuing-healthcare-and-nhsfunded-nursing-care*

Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018) *Care and support statutory guidance*. Llundain: DHSC. Ar gael yn: *https://www.gov.uk/government/publications/care-act-statutory-guidance/care-and-support-statutory-guidance*

Adran Iechyd, Integrating Community Equipment Services (2004) *Community equipment and care homes.* Llundain: Adran Iechyd.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2011) *Getting to grips with hoisting people*. Glannau Merswy: HSE.

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2014) *Health and safety in care homes*. Glannau Merswy: HSE.

Comisiwn Ansawdd Gofal (2018) *Regulation 13: safeguarding service users from abuse and improper treatment.* Newcastle: CQC. Ar gael yn:

*https://www.cqc.org.uk/guidance-providers/regulations-enforcement/regulation-13-safeguarding-service-users-abuse-improper*

Comisiwn Gofal Ansawdd (2015) *Guidance for providers on meeting the regulations. Health and Social Care Act 2008 (Regulated Activities) Regulations 2014 (Part 3) (as amended).Care Quality Commission (Registration) Regulations 2009 (Part 4) (as amended).* Newcastle: CQC.

Coleg Therapyddion Galwedigaethol (2016) *Care Act 2014: guidance for occupational therapists – prevention*. Llundain: COT.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011) *Services, public functions and associations: statutory code of practice (Equality Act 2010 Code of Practice)*. Norwich: Y Llyfrfa. Ar gael yn: *https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/services-public-functions-and-associations-statutory-code-practice*

Cyngor Cenedlaethol Gofal Lliniarol, Rhaglen Gofal Diwedd Bywyd GIG (2006) *Introductory guide to end of life care in care homes.* Llundain: DH. Ar gael yn: *http://www.ncpc.org.uk/sites/default/files/GuideToEoLC%20CareHomes.pdf*

Daley O, Casey J, Martin S, Tierney M, McVey O (2016) *The effectiveness of specialist seating provision for nursing home residents*. Limavady: Seating Matters; Belfast: Prifysgol Ulster. Ar gael yn: *https://seatingmatters.com/wp-content/uploads/2016/01/Seating-Matters-Clinical-Research-Overview.pdf*

Donnelly B (2015) *Code of practice for disability equipment, wheelchair and seating services: a quality framework for procurement and provision of services*.

Caerlŷr: Matador. Ar gael yn:
*http://www.cecops.org.uk/code-of-practice-scheme/the-official-code-of-practice-book/*

Prydain Fawr, Y Senedd (2014) *Care Act 2014*. Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr, Y Senedd (2000) *Deddf Safonau Gofal 2000*. Llundain: Y Llyfrfa.

Prydain Fawr, Y Senedd (1998a) *Provision and Use of Work Equipment Regulations 1998.* Llundain: Y Llyfrfa

Prydain Fawr, Y Senedd (1998b) *Lifting Operations and Lifting Equipment Regulations 1998.* Llundain: Y Llyfrfa.

Sainty M, Lambkin C, Maile L (2009) 'I feel so much safer': unravelling community equipment outcomes. *British Journal of Occupational Therapy*, *72(11)*, 499–506.

Whiteford G (2004) When people cannot participate: occupational deprivation. yn: Christensen CH, Townsend E, gol. *Introduction to occupation: the art and science of living*. Upper Saddle River, NJ: Prentice Hall. 221–242

Yr Alban, Llywodraeth yr Alban (2002) *The Community Care and Health (Scotland) Act*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban

# Llyfryddiaeth

Mandelstam M (2016) *Legal framework for equipment provision: guidelines*. Llundain: London Borough Occupational Therapy Management Group (LBOTMG).

Prydain Fawr. Y Senedd (2014) *Health and Social Care Act 2008 (Regulated Activities) Regulations 2014.* Llundain: Y Llyfrfa

Prydain Fawr, Y Senedd (2001) *Regulation of Care (Scotland) Act 2001.* Llundain: Y Llyfrfa

Social Care Institute for Excellence (2017) *Person-centred care for older people in care homes*: *safety and safeguarding in the care home.* Llundain: SCIE. Ar gael yn: *https://www.scie.org.uk/person-centred-care/older-people-care-homes/safety*

Yr Alban, Llywodraeth yr Alban (2009) *Care Quality Commission (Registration) Regulations 2009*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban.

Yr Alban, Llywodraeth yr Alban (2002) *Regulation of Care Requirements as to Care Services (Scotland) Regulations 2002*. Caeredin: Llywodraeth yr Alban. Ar gael yn: *www.legislation.gov.uk/ssi/2002/114/contents/made*

Cyrchwyd pob gwefan ar 07.03.2010

# Cartrefi Gofal ac Offer

## *Egwyddorion llywio asesu a darpariaeth*

Mae'r canllawiau hyn yn gosod egwyddorion cyffredinol er mwyn asesu, darparu a chynnal a chadw offer ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae deddfwriaeth gyfredol yn aneglur yng nghyswllt cyfrifoldeb am ddarparu offer arbenigol neu 'allan o'r cyffredin' mewn cartrefi gofal. Gan ddefnyddio sefyllfaoedd achos, mae'r ddogfen yn rhoi sylw i nifer o gyfrifoldebau a safonau ymarfer i helpu blaenoriaethu pwysigrwydd llesiant y person yn y broses benderfynu.

Bydd y cyhoeddiad hwn, a gynhyrchwyd gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol mewn ymgynghoriad â'i aelodau, yn cynorthwyo ymarferwyr therapi galwedigaethol gyda gwneud penderfyniadau lleol a darparu offer mewn modd amserol. Bydd y canllaw hefyd yn fan cyfeirio defnyddiol ar gyfer aelodau'r cyhoedd, sefydliadau cyflogi ac eraill sydd angen iddynt fod yn gwybod am y broses ar gyfer asesu a darparu offer ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.



Ar gael i'w lawrlwytho

**www.rcot.co.uk**
**Ffôn: 020 7357 6480**

© 2019 Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. Elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (Rhif 275119) ac yn yr Alban (Rhif SCO39573) a chwmni cofrestredig yn Lloegr (Rhif 1347374)

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol